***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 343 (Cy. 50)

# BWYD, CYMRU
# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mawrth 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *22 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) a (4)* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- Erthyglau 7(5) a 14A(2)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1331/2008 Senedd Ewrop a'r Cygor sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd(**1**);
- Erthygl 12(1) o Reoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd(**2**);
- adrannau 16(1)(a) a (2)(b), ac 48(1)(c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**3**);
- adrannau 74A(1) a 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**4**).

(**1**) EUR 2008/1331, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/860 a 2022/1351. Diwygiwyd O.S. 2019/860 gan O.S. 2020/1504. Diffinnir y termau "domestic list", "prescribe" ac "appropriate authority" yn Erthygl 2 o EUR 2008/1331. Diffinnir y term "sectoral food law" yn Erthygl 1(2) o EUR 2008/1331. Mewn perthynas â Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn, mae Erthygl 7(5) o EUR 2008/1331 yn gymwys yn unol ag Erthyglau 10(3), 14 a 30(4) o Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd (EUR 2008/1333). Mewn perthynas â Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn, mae Erthygl 7(5) o EUR 2008/1331 yn gymwys yn unol ag Erthygl 11(3) o Reoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol â phriodoleddau cyflasu sydd i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd (EUR 2008/1334).

(**2**) EUR 2015/2283, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/702; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Diwygiwyd O.S. 2019/702 gan O.S. 2020/1504. Diffinnir y termau "prescribe", "appropriate authority" a "list" yn Erthygl 3 o EUR 2015/2283. Mae Erthygl 12(1) o EUR 2015/2283 yn gymwys yn unol ag Erthyglau 9 a 27(1) o'r Rheoliad hwnnw.

(**3**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 16(1) a (2), ac 48(1) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999") a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) 1970 p. 40. Mewnosodwyd adran 74A gan baragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68); diwygiwyd yr adran honno wedi hynny gan adran 33(3) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21). Diwygiwyd adran 84 gan O.S. 2004/3254. Diffinnir y termau "the Ministers", "prescribed" a "regulations" yn adran 66(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ceisio cyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi rhoi sylw i'r cyngor hwnnw, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 7(5) o Reoliad (EC) Rhif 1331/2008(**5**) (mewn perthynas â Rhannau 2 a 3) ac adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**6**) (mewn perthynas â rheoliadau 7 ac 8).

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**7**) neu, yn achos darpariaethau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970.

# RHAN 1

## Rhagarweiniad

### Enwi, rhychwant, cymhwyso a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw Rhannau 1 a 5 i rym ar 14 Ebrill 2023.

(4) Daw Rhannau 2, 3 a 4 i rym ar 15 Mai 2023.

# RHAN 2

## Awdurdodi Ychwanegion Bwyd

### Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008

**2.** Mae Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd(**8**) wedi ei ddiwygio yn unol ag Atodlen 1.

### Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012

**3.** Mae Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012 sy'n gosod manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd a restrir yn Atodiadau II a III i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**9**) wedi ei ddiwygio yn unol ag Atodlen 2.

(**5**) Diffinnir y term "Authority" yn Erthygl 2(3) o EUR 2008/1331.
(**6**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.
(**7**) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**8**) EUR 2008/1333, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/860. Diwygiwyd O.S. 2019/860 gan O.S. 2020/1504.
(**9**) EUR 2012/231, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/860.

**Darpariaeth drosiannol**

**4.**—(1) Caniateir i unrhyw ychwanegyn bwyd neu fwyd a labelir cyn diwedd 14 Tachwedd 2024 fel E 960 glycosidau stefiol, neu fel eu bod yn cynnwys E 960 glycosidiau stefiol, sydd fel arall yn cydymffurfio â'r amodau defnyddio a'r fanyleb ar gyfer E 960a glycosidau stefiol o Stevia, barhau i gael eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio hyd nes y bydd y stociau wedi eu dihysbyddu.

(2) Mae i'r ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir ym mharagraff (1) sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd yr un ystyr â'r ymadroddion hynny yn y Rheoliad hwnnw.

# RHAN 3

## Awdurdodi Cyflasynnau Bwyd

**Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1334/2008**

**5.** Mae Rheoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol â phriodoleddau cyflasu sydd i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd(**10**) wedi ei ddiwygio yn unol ag Atodlen 3.

# RHAN 4

## Awdurdodi Bwydydd Newydd

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470**

**6.** Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470 sy'n sefydlu rhestr yr Undeb o fwydydd newydd yn unol â Rheoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd(**11**) wedi ei ddiwygio yn unol ag Atodlenni 4 a 5.

# RHAN 5

## Diwygiadau Amrywiol

**Diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012**

**7.** Yn Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012(**12**), yn rheoliad 12(2), yn lle'r geiriau o "nhabl 1" hyd at y diwedd rhodder "Nhabl 1 o Atodlen 6 ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau yn y Tabl hwnnw".

(**10**) EUR 2008/1334, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/860. Diwygiwyd O.S. 2019/860 gan O.S. 2020/1504.
(**11**) EUR 2017/2470, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/702 a 2022/575 (Cy. 133); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**12**) O.S. 2012/2705 (Cy. 291), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1362 (Cy. 273); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

**Diwygio Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

**8.** Yn Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(**13**), yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "Rheoliadau'r UE a ddargedwir"—

(a) yn y testun Cymraeg, yn lle "("*the EU Regulations*")" rhodder "("*the retained EU Regulations*")";

(b) yn y testun Saesneg, ar ôl ""the retained EU Regulations"" mewnosoder "("*Rheoliadau'r UE a ddargedwir*")".

**Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016**

**9.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(**14**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1B, yn Nhabl 1, yn y testun Cymraeg, yn y cofnod ar gyfer "1. Arsenig", yn yr ail golofn, yn lle "deunyddiau blawd", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "deunyddiau bwyd anifeiliaid".

*Lynne Neagle*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

20 Mawrth 2023

(**13**) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1362 (Cy. 273); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**14**) O.S. 2016/386 (Cy. 120), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1362 (Cy. 273); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

## ATODLEN 1

Rheoliad 2

### Diwygiadau i'r rhestr ddomestig o ychwanegion bwyd sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio mewn bwydydd yn Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 sy'n ymwneud â diwygio dynodiad yr ychwanegyn bwyd E 960a glycosidau stefiol o Stevia (E 960 glycosidau stefiol yn flaenorol) ac i ychwanegu E 960c rebaudiosid M a gynhyrchir drwy addasu glycosidau stefiol o Stevia ag ensymau

**1.** Yn Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008, mae Atodiad 2 (rhestr ddomestig o ychwanegion bwyd sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio mewn bwydydd) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn Rhan B (rhestr o'r holl ychwanegion), ym mharagraff 2 (melysyddion), yn y tabl—

(a) yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | |
|---|---|
| "E 960a | Steviol glycosides from Stevia"; |

(b) yn y lle priodol, mewnosoder y cofnod a ganlyn—

| | |
|---|---|
| "E 960c | Enzymatically produced steviol glycosides". |

**3.** Yn Rhan C (diffiniadau o grwpiau o ychwanegion), ym mharagraff 5 (ychwanegion eraill y caniateir eu rheoleiddio yn gyfun), ar ôl is-baragraff (u) mewnosoder—

"(v) E 960a and E 960c: Steviol glycosides

| E-number | Name |
|---|---|
| E 960a | Steviol glycosides from Stevia |
| E 960c | Enzymatically produced steviol glycosides". |

**4.** Yn Rhan E (ychwanegion bwyd awdurdodedig ac amodau defnyddio mewn categorïau bwyd), yn y tabl—

(a) yng nghategori 01.4 (cynhyrchion llaeth eplesedig â chyflas gan gynnwys cynhyrchion sydd wedi eu trin â gwres), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 100 | (1) (60) | only energy-reduced products or with no added sugar"; |

(b) yng nghategori 03 (iâ bwytadwy), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 200 | (1) (60) | only energy-reduced products or with no added sugar"; |

(c) yng nghategori 04.2.2 (ffrwythau a llysiau mewn finegr, olew neu heli), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 100 | (1) (60) | only sweet-sour preserves of fruit and vegetables"; |

(d) yng nghategori 04.2.4.1 (paratoadau ffrwythau a llysiau ac eithrio compot), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 200 | (1) (60) | only energy-reduced"; |

(e) yng nghategori 04.2.5.1 (jam ecstra a jeli ecstra), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 200 | (1) (60) | only energy-reduced jams, jellies and marmalades"; |

(f) yng nghategori 04.2.5.2 (jam, jelïau a marmaledau a phiwrî castan a felyswyd), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 200 | (1) (60) | only energy-reduced jams, jellies and marmalades"; |

(g) yng nghategori 04.2.5.3 (ffrwythau neu lysiau taenu tebyg eraill), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 200 | (1) (60) | only energy-reduced fruit or vegetable spreads and dried-fruit-based sandwich spreads, energy-reduced or with no added sugar"; |

(h) yng nghategori 05.1 (cynhyrchion coco a siocled), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 270 | (1) (60) | only energy-reduced or with no added sugar"; |

(i) yng nghategori 05.2 (melysion eraill gan gynnwys microfelysion ar gyfer puro'r anadl)—

(i) yn lle'r cofnod cyntaf ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 270 | (1) (60) | only cocoa or dried-fruit-based, energy-reduced or with no added sugar"; |

(ii) yn lle'r ail gofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 330 | (1) (60) | only cocoa, milk, dried-fruit-based or fat-based sandwich spreads, energy-reduced or with no added sugar"; |

(iii) yn lle'r trydydd cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 350 | (1) (60) | only confectionery with no added sugar<br><br>only energy-reduced hard confectionery such as candies and lollies<br><br>only energy-reduced soft confectionery such as chewy candies, fruit gums and foam sugar products/ marshmallows<br><br>only energy-reduced liquorice<br><br>only energy-reduced nougat<br><br>only energy-reduced marzipan"; |

(iv) yn lle'r pedwerydd cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 2000 | (1) (60) | only breath-freshening microsweets, energy-reduced or with no added sugar"; |

(v) yn lle'r pumed cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 670 | (1) (60) | only strongly flavoured freshening throat pastilles, energy-reduced or with no added sugar"; |

(j) yng nghategori 05.3 (gwm cnoi), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 3300 | (1) (60) | only with no added sugar"; |

(k) yng nghategori 05.4 (addurniadau, caenau a llenwadau, ac eithrio llenwadau wedi eu seilio ar ffrwythau a gwmpesir gan gategori 4.2.4)—

(i) yn lle'r cofnod cyntaf ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 330 | (1) (60) | only confectionery with no added sugar"; |

(ii) yn lle'r ail gofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 270 | (1) (60) | only cocoa or dried-fruit-based, energy-reduced or with no added sugar"; |

(l) yng nghategori 06.3 (grawnfwydydd brecwast), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 330 | (1) (60) | only breakfast cereals with a fibre content of more than 15%, and containing at least 20% bran, energy-reduced or with no added sugar"; |

(m) yng nghategori 07.2 (danteithion popty), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 330 | (1) (60) | only essoblaten – wafer paper"; |

(n) yng nghategori 09.2 (pysgod a chynhyrchion pysgodfeydd wedi eu prosesu gan gynnwys molysgiaid a chramenogion), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 200 | (1) (60) | only sweet-sour preserves and semi preserves of fish and marinades of fish, crustaceans and molluscs"; |

(o) yng nghategori 11.4.1 (melysyddion bwrdd ar ffurf hylif), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | *quantum satis*(**15**) | (60)"; | |

(p) yng nghategori 11.4.2 (melysyddion bwrdd ar ffurf powdr), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | *quantum satis* | (60)"; | |

(**15**) Diffinnir "*quantum satis*" yn Erthygl 3(2)(h) o EUR 2008/1333.

(q) yng nghategori 11.4.3 (melysyddion bwrdd mewn tabledi), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | *quantum satis* | (60)"; | |

(r) yng nghategori 12.4 (mwstard), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 120 | (1) (60)"; | |

(s) yng nghategori 12.5 (cawliau a photesau), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 40 | (1) (60) | only energy-reduced soups"; |

(t) yng nghategori 12.6 (sawsiau)—

(i) yn lle'r cofnod cyntaf ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 120 | (1) (60) | except soy-bean sauce (fermented and non-fermented)"; |

(ii) yn lle'r ail gofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 175 | (1) (60) | only soy-bean sauce (fermented and non-fermented)"; |

(u) yng nghategori 13.2 (bwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig (ac eithrio cynhyrchion o gategori bwyd 13.1.5))—

(i) yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 330 | (1) (60)"; | |

(ii) yn y cofnod ar gyfer "E 960" (Advantame), yn lle "E 960" rhodder "E 969";

(v) yng nghategori 13.3 (bwydydd deietegol ar gyfer deietau rheoli pwysau y bwriedir iddynt gymryd lle cyfanswm y cymeriant bwyd dyddiol neu bryd unigol)—

(i) yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 270 | (1) (60)"; | |

(ii) yn y cofnod ar gyfer "E 960" (Advantame), yn lle "E 960" rhodder "E 969";

(w) yng nghategori 14.1.3 (neithdarau ffrwythau a neithdarau llysiau a chynhyrchion tebyg), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 100 | (1) (60) | only energy-reduced or with no added sugar |
| | (1): The additives may be added individually or in combination"; | | | |

(x) yng nghategori 14.1.4 (diodydd â chyflas), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 80 | (1) (60) | only energy-reduced or with no added sugar"; |

(y) yng nghategori 14.1.5.2 (eraill)—

(i) yn lle'r cofnod cyntaf ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 30 | (1) (60) (93) | only coffee, tea and herbal infusion beverages, energy-reduced or with no added sugar"; |

(ii) yn lle'r ail gofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 30 | (1) (60) (93) | only flavoured instant coffee and instant cappuccino products, energy-reduced or with no added sugar"; |

(iii) yn lle'r trydydd cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 20 | (1) (60) (93) | only malt-based and chocolate/ cappuccino flavoured drinks, energy-reduced or with no added sugar"; |

(z) yng nghategori 14.2.1 (cwrw a diodydd brag), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 70 | (1) (60) | only alcohol-free beer or with an alcohol content not exceeding 1.2% volume; "Bière de table"/ "Tafelbier"/ "Table beer" (original wort content less than 6%) except for |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | "Obergäriges Einfachbier"; beers with a minimum acidity of 30 milli-equivalents expressed as NaOH; Brown beers of the "oud bruin" type"; |

(aa) yng nghategori 14.2.8 (diodydd alcoholaidd eraill gan gynnwys cymysgeddau o ddiodydd alcoholaidd gyda diodydd dialcohol a gwirodydd â llai na 15% o alcohol), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 150 | (1) (60)"; | |

(bb) yng nghategori 15.1 (byrbrydau wedi eu seilio ar datws, grawnfwyd, blawd neu startsh), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 20 | (1) (60)"; | |

(cc) yng nghategori 15.2 (cnau wedi eu prosesu), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 20 | (1) (60)"; | |

(dd) yng nghategori 16 (pwdinau ac eithrio cynhyrchion a gwmpesir yng nghategorïau 1, 3 a 4), yn lle'r cofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 100 | (1) (60) | only energy-reduced or with no added sugar"; |

(ee) yng nghategori 17.1 (atchwanegiadau bwyd a gyflenwir ar ffurf solet, ac eithrio atchwanegiadau bwyd ar gyfer babanod a phlant ifanc)—

(i) yn lle'r cofnod cyntaf ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 670 | (1) (60)"; | |

(ii) yn lle'r ail gofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 1800 | (1) (60) | only food supplements in chewable form"; |

(ff) yng nghategori 17.2 (atchwanegiadau bwyd a gyflenwir ar ffurf hylif, ac eithrio atchwanegiadau bwyd ar gyfer babanod a phlant ifanc)—

(i) yn lle'r cofnod cyntaf ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 200 | (1) (60)"; | |

(ii) yn lle'r ail gofnod ar gyfer "E 960" (glycosidau stefiol) rhodder—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "E 960a and E 960c | Steviol glycosides | 1800 | (1) (60) | only food supplements in syrup form". |

ATODLEN 2

Rheoliad 3

Diwygiadau i'r Atodiad i Reoliad (EU) Rhif 231/2012 sy'n ymwneud â'r fanyleb ar gyfer E 960a glycosidau stefiol o Stevia (E 960 glycosidau stefiol yn flaenorol) ac i ychwanegu manyleb ar gyfer E 960c rebaudiosid M a gynhyrchir drwy addasu glycosidau stefiol o Stevia ag ensymau

**1.** Yn Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012, mae'r Atodiad (manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd gan gynnwys lliwiau a melysyddion a restrir yn Atodiadau 2 a 3 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn lle pennawd y cofnod ar gyfer "E 960 STEVIOL GLYCOSIDES" rhodder—

*"E 960a STEVIOL GLYCOSIDES FROM STEVIA"*

**3.** Yn y lle priodol, mewnosoder y cofnod a ganlyn—

**"E 960c REBAUDIOSIDE M PRODUCED VIA ENZYME MODIFICATION OF STEVIOL GLYCOSIDES FROM STEVIA**

| | |
|---|---|
| **Synonyms** | |
| **Definition** | Rebaudioside M is a steviol glycoside composed predominantly of rebaudioside M with minor amounts of other steviol glycosides such as rebaudioside A, rebaudioside B, rebaudioside D, rebaudioside I, and stevioside.<br><br>Rebaudioside M is obtained via enzymatic bioconversion of purified steviol glycoside leaf extracts (95% steviol glycosides) of the *Stevia rebaudiana* Bertoni plant using UDP-glucosyltransferase and sucrose synthase enzymes produced by the genetically modified yeasts *K. phaffi* (formerly known as *Pichia pastoris)* UGT-a and *K. phaffi* UGT-b that facilitate the transfer of glucose from sucrose and UDP-glucose to steviol glycosides via glycosidic bonds.<br><br>After removal of the enzymes by solid-liquid separation and heat treatment, the purification involves concentration of the rebaudioside M by resin adsorption, followed by recrystallisation of rebaudioside M resulting in a final product containing not less than 95% of rebaudioside M. Viable cells or the DNA of the yeasts *K. phaffi* UGT-a or *K. phaffi* UGT-b must not be detected in the food additive. |
| Chemical name | Rebaudioside M: 13-[(2-O-β-D-glucopyranosyl-3-O-β-D-glucopyranosyl-β-D-glucopyranosyl)oxy]kaur-16-en-18-oic acid, 2- |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | O-β-D-glucopyranosyl-3-O-β-D-glucopyranosyl-β-D-glucopyranosyl ester | | |
| Molecular formula | *Trivial name* | *Formula* | *Conversion factor* |
| | Rebaudioside M | $C_{56} H_{90} O_{33}$ | 0.25 |
| Molecular weight and CAS number | *Trivial name* | *CAS Number* | *Molecular weight (g/mol)* |
| | Rebaudioside M | 1220616-44-3 | 1291.29 |
| Assay | Not less than 95% rebaudioside M on the dried basis | | |
| **Description** | White to light yellow powder, approximately between 200 and 350 times sweeter than sucrose (at 5% sucrose equivalency) | | |
| **Identification** | | | |
| Solubility | Freely soluble to slightly soluble in water | | |
| pH | Between 4.5 and 7.0 (1 in 100 solution) | | |
| **Purity** | | | |
| Total ash | Not more than 1% | | |
| Loss on drying | Not more than 6% (105°C, 2h) | | |
| Residual solvent | Not more than 5000 mg/kg ethanol | | |
| Arsenic | Not more than 0.015 mg/kg | | |
| Lead | Not more than 0.2 mg/kg | | |
| Cadmium | Not more than 0.015 mg/kg | | |
| Mercury | Not more than 0.07 mg/kg | | |
| Residual protein | Not more than 5 mg/kg | | |
| Particle size | Not less than 74 µm (using a mesh #200 sieve with a particle size limit of 74 µm)" | | |

## ATODLEN 3

Rheoliad 5

### Diwygiadau i'r rhestr ddomestig o sylweddau cyflasu yn Atodiad 1 i Reoliad (EC) Rhif 1334/2008 ar gyfer ychwanegu 3-(1-((3,5-deumethylisocsasol-4-yl)methyl)-1*H*-pyrasol-4-yl)-1-(3-hydrocsybensyl)imidasolidin-2,4-dion

**1.** Yn Rheoliad (EC) Rhif 1334/2008, mae Atodiad 1 (rhestr ddomestig o gyflasynnau a deunyddiau ffynhonnell) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn Rhan A (rhestr ddomestig o sylweddau cyflasu), yn Adran 2, yn Nhabl 1, yn y lle priodol mewnosoder y cofnod a ganlyn—

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| "16.127 | 3-(1-((3,5-dimethylisoxazol-4-yl)methyl)-1*H*-pyrazol-4-yl)-1-(3-hydroxybenzyl)imidazolidine-2,4-dione | 1119831-25-2 | 2161 | | At least 99%, assay (HPLC/UV) | Restrictions of use as a flavouring substance:<br>In category 1.4 – not more than 4 mg/kg<br>In category 1.8 – not more than 8 mg/kg<br>In category 3 – not more than 4 mg/kg<br>In category 5.1 – not more than 15 mg/kg<br>In category 5.2 – not more than 16 mg/kg<br>In category 5.3 – not more than 30 mg/kg<br>In category 5.4 – not more than 15 mg/kg<br>In category 6.3 – not more than 25 mg/kg<br>In category | | The Authority(**16**) |

(**16**) Diffinnir "Authority" yn Erthygl 3(2)(l) o EUR 2008/1334.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 12.1 – not more than 75 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 12.2 – not more than 100 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 12.3 – not more than 25 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 12.4 – not more than 25 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 12.5 – not more than 4 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 13.2 – not more than 4 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 13.3 – not more than 4 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 14.1.4, dairy-based drinks only – not more than 4 mg/l | | |
| | | | | | | In category 14.1.5 – not more than 8 mg/kg | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | In category 15.1 – not more than 20 mg/kg | | |
| | | | | | | In category 16, dairy-based desserts only – not more than 4 mg/l". | | |

## ATODLEN 4

Rheoliad 6

### Diwygiadau i'r rhestr o fwydydd newydd yn yr Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470 ar gyfer awdurdodi burum pobi sydd wedi ei drin ag UV (*Saccharomyces cerevisiae*) fel bwyd newydd

**1.** Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470, mae'r Atodiad (rhestr o fwydydd newydd) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn Nhabl 1 (bwydydd newydd awdurdodedig), yn lle'r cofnod ar gyfer "UV-treated baker's yeast (*Saccharomyces cerevisiae*)" rhodder—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| "**UV-treated baker's yeast (*Saccharomyces cerevisiae*)** | *Specified food category* | *Maximum levels of vitamin D $_2$* | The designation of the novel food on the labelling of food containing it is "vitamin D yeast" or "vitamin $D_2$ yeast". | The novel food must be inactivated for use in infant formula, follow-on formula, processed cereal-based food and food for special medical purposes. | |
| | Yeast-leavened breads and rolls | 5 µg/100 g | | | |
| | Yeast-leavened fine bakery wares | 5 µg/100 g | | | |
| | Food supplements as defined in the Food Supplements (Wales) Regulations 2003(**17**) | In accordance with any relevant requirements contained in regulations applying in relation to Wales and made under regulation 4 of the Nutrition (Amendment etc.) (EU Exit) | | | |

(**17**) O.S. 2003/1719 (Cy. 186), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Regulations 2019(**18**) | | | |
| | Pre-packed fresh or dry yeast for home baking | 45 µg/100 g for fresh yeast<br><br>200 µg/100 g for dry yeast | The designation of the novel food on the labelling of food containing it is "vitamin D yeast" or "vitamin $D_2$ yeast".<br><br>The labelling of the novel food must bear a statement that the food is only intended for baking and should not be eaten raw.<br><br>The labelling of the novel food must bear instructions for use for the final consumer to ensure a maximum concentration of 5µg/100g of vitamin $D_2$ in the final home-baked product is not exceeded. | | |
| | Dishes, including ready-to-eat meals (excluding soups and salads) | 3 µg/100 g | The designation of the novel food on the labelling of food containing it is "vitamin | | |
| | Soups and salads | 5 µg/100 g | | | |

(**18**) O.S. 2019/651, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1476 a 2023/28.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Fried or extruded cereal, seed or root-based products | 5 µg/100 g | D yeast" or "vitamin $D_2$ yeast". | |
| | Infant formula and follow-on formula as defined in Regulation (EU) No 609/2013(**19**) | In accordance with Regulation (EU) No 609/2013 | | |
| | Processed cereal-based food as defined in Regulation (EU) No 609/2013 | In accordance with Regulation (EU) No 609/2013 | | |
| | Processed fruit products | 1.5 µg/100 g | | |
| | Processed vegetables | 2 µg/100 g | | |
| | Bread and similar products | 5 µg/100 g | | |
| | Breakfast cereals | 4 µg/100 g | | |
| | Pasta, doughs and similar products | 5 µg/100 g | | |
| | Other cereal-based products | 3 µg/100 g | | |
| | Spices, seasonings, condiments, sauce ingredients, dessert sauces/toppings | 10 µg/100 g | | |
| | Protein products | 10 µg/100 g | | |
| | Cheese | 2 µg/100 g | | |
| | Dairy desserts and similar products | 2 µg/100 g | | |
| | Fermented milk or fermented cream | 1.5 µg/100 g | | |

(**19**) EUR 2013/609, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/651 a 2023/28. Diwygiwyd O.S. 2019/651 gan O.S. 2020/1476 a 2023/28.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Dairy powders and concentrates | 25 µg/100 g | | |
| | Milk-based products, whey and cream | 0.5 µg/100 g | | |
| | Meat and dairy analogues | 2.5 µg/100 g | | |
| | Total diet replacement for weight control as defined in Regulation (EU) No 609/2013 | 5 µg/100 g | | |
| | Meal replacement for weight control | 5 µg/100 g | | |
| | Food for special medical purposes as defined in Regulation (EU) No 609/2013 | In accordance with the particular nutritional requirements of the persons for whom the products are intended". | | |

**3.** Yn Nhabl 2 (manylebau) yn lle'r cofnod ar gyfer "UV-treated baker's yeast (*Saccharomyces cerevisiae*)" rhodder—

| | |
|---|---|
| **"UV-treated baker's yeast (*Saccharomyces cerevisiae*)** | **Description/Definition**<br><br>Baker's yeast (*Saccharomyces cerevisiae*) is treated with ultraviolet light to induce the conversion of ergosterol to vitamin $D_2$ (ergocalciferol). Vitamin $D_2$ content in the yeast concentrate varies between 800,000 - 3,500,000 IU vitamin D/100 g (200-875 µg/g).<br><br>The yeast is inactivated for use in infant formula, follow-on formula, processed cereal-based food, and food for special medical purposes as defined in Regulation (EU) No 609/2013. The yeast can be active or inactive for use in other foods.<br><br>The yeast concentrate is blended with regular baker's yeast in order not to exceed the maximum level in the pre-packed fresh or dry yeast for home baking.<br><br>Tan-coloured, free-flowing granules.<br><br>**Vitamin $D_2$** |

| | |
|---|---|
| | Chemical name: (5Z,7E,22E)-(3S)-9,10-secoergosta-5,7,10(19),22-tetraen-3-ol<br><br>Synonym: Ergocalciferol<br><br>CAS No.: 50-14-6<br><br>Molecular weight: 396.65 g/mol<br><br>**Microbiological criteria for the yeast concentrate**<br><br>Coliforms: ≤ $10^3$ CFU/g<br><br>*Escherichia coli*: ≤ 10 CFU/g<br><br>*Salmonella* spp.: Absence in 25 g<br><br>CFU: Colony Forming Units". |

ATODLEN 5

Rheoliad 6

Diwygiadau i'r rhestr o fwydydd newydd yn yr Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470 ar gyfer awdurdodi powdr madarch fitamin $D_2$ fel bwyd newydd

**1.** Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470, mae'r Atodiad (rhestr o fwydydd newydd) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn Nhabl 1 (bwydydd newydd awdurdodedig), ar ôl y cofnod ar gyfer "Vitamin $D_2$ mushroom powder" mewnosoder y cofnod a ganlyn—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **"Vitamin $D_2$ mushroom powder** | ***Specified food category*** | ***Maximum levels of vitamin $D_2$*** | The designation of the novel food on the labelling of food containing it is "UV-treated mushroom powder containing vitamin $D_2$".<br><br>The labelling of food supplements, as defined in the Food Supplements (Wales) Regulations 2003, containing vitamin $D_2$ | | Included in the list on 15 May 2023.<br><br>This inclusion is based on proprietary scientific evidence and scientific data protected in accordance with Article |
| | Breakfast cereals | 2.1 µg/100 g | | | |
| | Yeast-leavened bread and similar pastries | 2.1 µg/100 g | | | |
| | Grain products and pasta and similar products | 2.1 µg/100 g | | | |
| | Fruit / vegetable juices and nectars | 1.1 µg/100 ml (marketed as such or reconstituted as instructed by the manufacturer) | | | |
| | Dairy products and analogues | 2.1 µg/100 g (marketed | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | other than beverages | as such or reconstituted as instructed by the manufacturer) | mushroom powder must bear a statement that they should not be consumed by infants and children under 3 years of age. | | 26 of Regulation (EU) 2015/2283.<br><br>Applicant: MBio, Monaghan Mushrooms, Tullygony, Tyholland, Co. Monaghan, Ireland, H18 FW95.<br><br>During the period of data protection, vitamin $D_2$ mushroom powder is authorised for placing on the market, within Wales, only by MBio, Monaghan Mushrooms unless a subsequent applicant obtains authorisation for the novel food without reference to the proprietary scientific evidence or |
| | Dairy products and analogues as beverages | 1.1 µg/100 ml (marketed as such or reconstituted as instructed by the manufacturer) | | | |
| | Milk and dairy powders | 21.3 µg/100 g (marketed as such or reconstituted as instructed by the manufacturer) | | | |
| | Meat analogues | 2.1 µg/100 g | | | |
| | Soups | 2.1 µg/100 ml (marketed as such or reconstituted as instructed by the manufacturer) | | | |
| | Extruded vegetable snack | 2.1 µg/100 g | | | |
| | Meal replacement for weight control | 2.1 µg/100 g | | | |
| | Food for special medical purposes as defined in Regulation (EU) No 609/2013 excluding those intended for infants | In accordance with the particular nutritional requirements of the persons for whom the products are intended | | | |
| | Food supplements as defined in the Food Supplements (Wales) Regulations 2003 excluding food supplements for infants and | 15 µg of vitamin $D_2$/day" | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | children under 3 years of age | | | | scientific data protected in accordance with Article 26 of Regulation (EU) 2015/2283 or with the agreement of MBio, Monaghan Mushrooms.<br><br>The data protection will expire at the end of 14 May 2028. |

**3.** Yn Nhabl 2 (manylebau), ar ôl y cofnod ar gyfer "Vitamin $D_2$ mushroom powder" mewnosoder y cofnod a ganlyn—

| | |
|---|---|
| **"Vitamin $D_2$ mushroom powder** | **Description/Definition**<br><br>The novel food is mushroom powder produced from dried whole *Agaricus bisporus* mushrooms. The process includes drying, milling and the controlled exposure of the mushroom powder to ultraviolet light.<br><br>**Characteristics/Composition**<br><br>Vitamin $D_2$ content: 580-595 µg/g of mushroom powder<br><br>Ash: ≤ 13.5%<br><br>Water activity: < 0.5<br><br>Moisture content: ≤ 7.5%<br><br>Carbohydrates: ≤ 35%<br><br>Total dietary fibre: ≥ 15%<br><br>Crude protein (N x 6.25): ≥ 22% |

| | |
|---|---|
| | Fat: ≤ 4.5%<br>**Heavy metals**<br>Lead: ≤ 0.5 mg/kg<br>Cadmium: ≤ 0.5 mg/kg<br>Mercury: ≤ 0.1 mg/kg<br>Arsenic: ≤ 0.3 mg/kg<br>**Mycotoxins**<br>Aflatoxin B1: ≤ 0.1 μg/kg<br>Aflatoxins (sum of B1 + B2 + G1 + G2): < 4 μg/kg<br>**Microbiological criteria**<br>Total plate count: ≤ 5000 CFU<br>Total yeast and mould count: ≤ 100 CFU/g<br>*Escherichia coli*: < 10 CFU/g<br>*Salmonella*spp.: Absence in 25 g<br>*Staphylococcus aureus*: ≤ 10 CFU/g<br>Coliforms: ≤ 10 CFU/g<br>*Listeria* spp.: Absence in 25 g<br>Enterobacteriaceae: < 10 CFU/g<br>CFU: Colony Forming Units". |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ynghylch awdurdodiadau cynhyrchion bwyd rheoleiddiedig. Maent hefyd yn gwneud mân gywiriadau i is-offerynnau Cymreig amrywiol ar gyfraith bwyd a chyfraith bwyd anifeiliaid.

Gwneir Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 2 i 4 ac Atodlenni 1 a 2) drwy arfer pwerau yn Rheoliad (EC) Rhif 1331/2008 sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd (EUR 2008/1331). Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau a wneir yn Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer awdurdodi, o ran Cymru, roi ar y farchnad a defnyddio'r ychwanegyn bwyd E 960c rebaudiosid M a gynhyrchir drwy addasu glycosidau stefiol o Stevia ag ensymau. Mae'r cofnodion awdurdodi presennol ar gyfer yr ychwanegyn bwyd E 960 glycosidau stefiol yn cael eu newid i adlewyrchu'r enw a'r E-rif diwygiedig E 960a glycosidau stefiol o Stevia.

Mae rheoliad 2 ac Atodlen 1 yn diweddaru, o ran Cymru, y rhestr ddomestig o ychwanegion bwyd sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio mewn bwydydd yn Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd (EUR 2008/1333). Mae Atodlen 1 hefyd yn cywiro'r E-rif mewn dau gofnod yn yr Atodiad hwnnw ar gyfer yr ychwanegyn bwyd E 969 Advantame.

Mae rheoliad 3 ac Atodlen 2 yn diwygio, o ran Cymru, Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012 sy'n gosod manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd a restrir yn Atodiadau II a III i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 (EUR 2012/231).

Mae rheoliad 4 yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n caniatáu ar gyfer cyfnod o 18 mis pan ganiateir i stociau o gynhyrchion barhau i gael eu labelu fel E 960 glycosidau stefiol, neu fel eu bod yn cynnwys E960 glycosidau stefiol. Caniateir i stociau sy'n cael eu labelu o fewn yr amserlen honno gael eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio hyd nes y bydd y stociau hynny wedi eu dihysbyddu.

Gwneir Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 5 ac Atodlen 3) hefyd drwy arfer pwerau yn EUR 2008/1331. Mae rheoliad 5 ac Atodlen 3 yn diweddaru, o ran Cymru, y rhestr ddomestig o sylweddau cyflasu yn Atodiad 1 i Reoliad (EC) Rhif 1334/2008 ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol â phriodoleddau cyflasu sydd i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd (EUR 2008/1334). Mae'r diwygiadau hyn yn darparu ar gyfer awdurdodi, o ran Cymru, roi ar y farchnad a defnyddio'r cyflasyn bwyd 3-(1-((3,5-deumethylisocsasol-4-yl)methyl)-1*H*-pyrasol-4-yl)-1-(3-hydrocsybensyl)imidasolidin-2,4-dion.

Gwneir Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 6 ac Atodlenni 4 a 5) drwy arfer pwerau yn Rheoliad (EU) 2015/2283 ar fwydydd newydd (EUR 2015/2283). Mae rheoliad 6 ac Atodlenni 4 a 5 yn diweddaru, o ran Cymru, y rhestr o fwydydd newydd awdurdodedig yn Atodiad 1 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470 sy'n sefydlu rhestr yr Undeb o fwydydd newydd (EUR 2017/2470):

- Mae Atodlen 4 yn amnewid y cofnod ar gyfer burum pobi sydd wedi ei drin ag UV (*Saccharomyces cerevisiae*), gan ymestyn y categorïau bwyd penodedig y mae'r bwyd newydd hwnnw wedi ei awdurdodi ar eu cyfer.
- Mae Atodlen 5 yn mewnosod cofnod newydd, sy'n awdurdodi rhoi ar y farchnad bowdr madarch fitamin $D_2$ newydd fel bwyd newydd i'w ddefnyddio yn y categorïau bwyd penodedig.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 7, 8 a 9) yn cynnwys mân gywiriadau i is-offerynnau Cymreig amrywiol ar gyfraith bwyd a chyfraith bwyd anifeiliaid. Gwneir rheoliadau 7 ac 8 drwy arfer pwerau yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (p. 16). Gwneir rheoliad 9 drwy arfer pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 1970 (p. 40).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.